Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Ymateb gan Alun Davies, Aelod Cynulliad Llafur, Canol a Gorllewin Cymru.

Cyflwyniad

Mae S4C i'w longyfarch am fuddsoddi yn Planed Plant, ac am ei lwyddiant. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae wedi datblygu hunaniaeth a brand sy'n adnabyddus ac yn boblogaidd.

Mae cryfhau darpariaeth i blant a phobl ifainc yn anhepgor i lwyddiant a ffyniant yr iaith Gymraeg yn y dyfodol.

Rwy'n falch fod S4C yn ystyried ehangu'r ddarpariaeth i blant a phobl ifainc. Mae'r cynnydd yn yr oriau a ddarlledir eisoes wedi bod o fudd i deuluoedd lle mae'r rhieni yn frwd dros i'w plant gael cyfle i ddysgu'r iaith neu fwynhau rhaglenni yn eu dewis iaith.

Mewn amgylchedd ddigidol lle mae'r nifer o raglenni plant wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf mae'n fwyfwy pwysig fod S4C yn gallu darparu gwasanaeth cyfoethog a deniadol i blant a phobl ifainc. Mae hyn yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth y Cynulliad i gynyddu'r nifer o blant sy'n gallu siarad a mwynhau'r iaith Gymraeg a hefyd gynyddu'r cyfleon i blant ddysgu'r iaith.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i barhau i fuddsoddi mewn rhaglenni gwreiddiol i blant. Yr agwedd hon ar strategaeth S4C sydd wedi gwneud ei wasanaeth yn un unigryw ac sy'n gwneud gwasanaethau S4C yn wahanol i'r lleill.

Y cynllun arfaethedig

Mae'r cynllun arfaethedig yn amlinellu tri opsiwn posibl i ddarparu'r gwasanaeth newydd.

Gan fod y ddogfen ymgynghorol yn diystyru'r trydydd opsiwn, ymddengys taw rhwng Opsiwn Un ac Opsiwn Dau y mae'r unig wir ddewis.

Yn fy marn i, dewis ffug yw hwn.

Darparu gwasanaeth newydd i blant

Credaf ei bod yn llwyr bosibl i ddarparu'r gwasanaeth newydd a pharhau i ddarlledu'r gwasanaeth cyfredol ar S4C2.

Yn fy marn i y prif bethau y mae'n rhaid i teledu Cymraeg i blant eu cyflawni yw:

1. Darparu gwasanaeth sy'n gweddu i fywydau plant a theuluoedd. Yr amserau pwysig i'r grwpiau hyn yw yn gynnar yn y bore cyn ysgol (0700 – 0900); amser cinio (1200-1400); yn hwyr y prynhawn ac yn gynnar fin nos (1600 – 1900); gwyliau o'r ysgol a phenwythnosau.

2. Darparu nifer uwch o'r rhaglenni Cymraeg mwyaf poblogaidd.

'Alla' i ddim deall cynnig S4C i ddarlledu gwasanaeth wedi'i anelu at blant hyn o 1500 ymlaen. Nid ydwyf yn credu y bydd cynulleidfa ar gael yn ystod yr amser hwn. Bydd y rhan fwyaf o blant hyn yn yr ysgol tan 1600 ac mae rhaglenni plant eisoes ar gael yn ystod yr amser hwn ar S4C ac S4C digidol.

Yn sicr, mae 'na faterion yn ymwneud â'r amserlen rhwng 1800 ac 1900 sydd angen eu trafod ond mae'r rhain yn faterion y bydd pob darlledwr yn eu hwynebu wrth i gynulleidfaoedd newid ac wrth iddyn nhw geisio gwasanaethu cynulleidfaoedd newydd. Mae ceisio cyrraedd pobl yn eu harddegau yn sialens i bob darlledwr. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos S4C sydd yn gorfod cystadlu gyda phwer diwylliannol a'r adnoddau enfawr sy gan ddarlledwyr yn Saesneg.

Rwyf yn cytuno gyda datganiad S4C y bydd rhaid mynd i'r afael ag anghenion gwahanol yn ystod gwyliau ysgol ac ar benwythnosau. Mae'r cyfnodau hyn o'r wythnos a'r flwyddyn yn holl-bwysig i S4C wrth geisio cyrraedd cynulleidfa newydd ac wrth wasanaethu'r gynulleidfa bresennol.

Dydw i ddim yn credu bod 'na alw digonol am wasanaeth yn ystod y dydd. O'r ddogfen ymgynghorol, dyw S4C yn sicr heb brofi fod y galw yno ar hyn o bryd - neu'n debygol o fod yno yn y dyfodol. Nid yw S4C wedi darparu unrhyw dystiolaeth o alw gan y cyhoedd nac awgrym o lefelau cynulleidfa bosibl.

Does dim gwrthdaro rhwng cwrdd â sialensau'r gwasanaeth newydd a pharhau i ddarlledu'r Cynulliad Cenedlaethol ar S4C2. Yn wir, yr adegau o'r wythnos (neu'r flwyddyn) pan fo cynulleidfa ar gael i'r gwasanaeth newydd yw'r union gyfnodau pan nad yw'r S4C2 gyfredol yn darlledu.

Cyllid

Credaf y dylai S4C dderbyn cyllid ychwanegol gan yr Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i gynyddu'r cynnwys sydd ar gael i blant a phobl ifainc. Gallai S4C chwarae rôle ganolog wrth gynyddu'r gwahanol fathau o gynnwys ar fformatau a phlatfformau gwahanol, gan gyfoethogi bywydau plant sy'n siarad Cymraeg.
Ar yr un pryd, hoffwn weld y BBC yn chwarae rôl llawer mwy gweithredol a chreadigol wrth ddarparu deunydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'n dda gweld y BBC yn creu fersiynau Cymraeg o'i raglenni plant poblogaidd ar gyfer S4C. Dylid ehangu'r polisi hwn i gynnwys gweithgareddau eraill gan y BBC fel creu, marchnata a thrwyddedu nwyddau sy'n ymwneud â rhaglenni, fel Dr Who. Byddai hyn yn galluogi plant a phobl ifainc i ddefnyddio'r Gymraeg wrth chwarae a chyfoethogi'u profiad wrth wylio.

Dyfodol S4C2

Rwy'n credu fod gwasanaeth S4C2 yn enghraifft ardderchog o ddau ddarlledwr yn gweithio gyda'i gilydd er lles ehangach y cyhoedd. Mae gan S4C2 rôl holl-bwysig wrth ddatblygu, lledu a dyfnhau dealltwriaeth y cyhoedd o'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'n hynod o bwysig i bobl sy'n byw bellaf o Gaerdydd ac a fyddai'n methu dilyn gweithgareddau'r Cynulliad fel arall. Mae'n hurt awgrymu rhoi'r gorau i'r gwasanaeth ar adeg pan fo deddfwriaeth 2006 wedi cynyddu pwerau'r Cynulliad a phan fydd y Cynulliad yn tyfu ac yn derbyn pwerau newydd.

Cyfnod i gryfhau'r gwasanaeth yw hwn, nid rhoi'r gorau iddo.

Mewn llawer ffordd, mae'n drasiedi nad yw'r darlledwyr yn caru'r gwasanaeth. Nid yw'r gwasanaeth wedi derbyn cefnogaeth farchnata, nag yn nhermau cynnwys gan y BBC, fyddai'n ei alluogi i ddatblygu a thyfu.

Credaf, fodd bynnag, y gellid cael hyd i ffordd ymlaen petae Comisiwn newydd y Cynulliad yn gweithio'n agos gyda'r ddau ddarlledwr er mwyn cryfhau marchnata a diwyg y sianel.

O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae gan Gomisiwn y Cynulliad ddyletsywdd newydd i hybu ymwybyddiaeth o'r Cynulliad a'i waith. Byddai torri ar neu ddileu'r gwasanaeth yn fy marn i yn tanseilio gwaith y Comisiwn yn y maes hwn.

Gallai'r ymgynghoriad hwn, yn hytrach, fod yn gatalydd i'r rhanddalwyr weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth teledu cryfach o waith a gweithrediadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Casgliad

Credaf ei bod yn bosibl i S4C lawnsio gwasanaeth newydd wedi'i anelu'n benodol at blant a phobl ifainc tra'n cynnal a gwella'r gwasanaeth presennol ar S4C2.
Gellir cyflawni hyn drwy ddefnydd mwy creadigol o'r sbectrwm sbâr sydd ar gael pan nad yw S4C2 ar yr awyr (yn ystod gwyliau, penwythnosau a chyda'r nos) a gwasanaeth S4C digidol. Byddai hyn yn creu gwasanaeth newydd a chyffrous i blant a phobl ifainc ac ar yr un pryd helpu S4C i gwrdd â'i ddyletswyddau gwasanaeth cyhoeddus.